EVANS, WILLIAM ('Alaw Afan '; 1836 - 1900), cerddor

Enw: William Evans
Ffugenw: Alaw Afan
Dyddiad geni: 1836
Dyddiad marw: 1900
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cerddor
Maes gweithgaredd: Crefydd; Eisteddfod; Cerddoriaeth; Perfformio
Awdur: William Llewelyn Davies

Ganwyd yn Melincrug gerllaw pentref Llanafan, Sir Aberteifi. Bu'n goedwigwr ar ystad ieirll Lisburne yn ardal ei febyd a byw am gyfnod yn Maenarthur Cottage yn ymyl pentref Ysbyty Ystwyth. Yn y cyfnod hwn bu'n ddyfal fel cyfansoddwr, yn arweinydd côr Llanafan, ac yn cystadlu'n fynych mewn eisteddfodau a gynhelid yng Nghymru ac U.D.A. Symudodd o Sir Aberteifi i Sir Forgannwg a threuliodd weddill ei oes yn Nhreorci. Ceir esiamplau o emyn-donau, anthemau, a rhanganau o'i waith yn y MSS. a nodir isod; gweler hefyd *Llawlyfr Moliant*. Bu farw 16 Mehefin 1900 yn Nhreorci, a chladdwyd ef yn Ysbyty Ystwyth.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Y Cerddor, Medi 1900

NLW MSS 7795-7803, 8266

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734615

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu